# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0890(CWS) a gyhoeddwyd gan Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ar 20 Medi 2006

**At Nick Bourne:**

Yn ystod fy nghwestiynau llafar yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Medi, addewais y byddwn yn eich hysbysu os fu unrhyw ymwneud neu fewnbwn Cymreig i gofeb Brydeinig er cof am 'Ground Zero' yn Efrog Newydd.

Mae dau dŵr yng Ground Zero sydd wedi cael eu cynllunio gan y penseiri Prydeinig, Norman Foster a Richard Rogers. Nid oes cofeb Brydeinig yn Ground Zero ei hun. Fodd bynnag, nepell i ffwrdd yn Hanover Square, mae gardd goffa Brydeinig yn cael ei hadeiladu er cof am y 67 o Brydeinwyr a ddioddefodd yn 9/11 ac mae gan Gymru rhan fawr iawn yn hyn. Mae'r gwaith adeiladu bron a chael ei gyflawni a bydd y plannu yn dechrau yn yr hydref.

Bydd Cymru'n cael ei chynrychioli yn yr ardd mewn sawl modd:

- Bydd arwyddlun y genhinen Bedr yn cael ei gynnwys yng nghynllun y rheiliau (ynghyd â rhosyn, ysgallen a meillionen)
- Cynhwysir llechi Cymreig a nodwedd dŵr yn y cynllun i gynrychioli nant yng Nghymru.
- Cynrychiolir pob sir yng Nghymru gan garreg balmant (felly hefyd siroedd Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).
- Bydd arwyddlun draig y St David's Society, New York yn cael ei atgynhyrchu ar folard (ynghyd ag arwyddluniau cymdeithasau addas eraill).

Yn ychwanegol, mae gan is-adran materion allanol Llywodraeth Cynulliad Cymru gynrychiolydd ar bwyllgor digwyddiadau'r ardd goffa Brydeinig i sicrhau fod Cymru'n cael ei chynrychioli ym mhob achlysur cyffredinol neu godi arian. Er enghraifft, yn y gyngerdd 9/11 diweddar (a fynychwyd gan Ddug Efrog a Jack Straw ymhlith pobl bwysig eraill), canodd y soprano Cymraeg ifanc, Rachel Schutz, yr anthemau cenedlaethol yn ogystal â rhai caneuon Cymraeg traddodiadol.

Bob blwyddyn, yn y cinio gala i godi arian ar gyfer yr ardd, mae canolfan cenedlaethol Cymru yn trefnu bwrdd ac yn gwahodd cleientiaid allweddol i ddod. Mae'r gangen materion allanol hefyd yn cysylltu'r ardd â chyflenwyr Cymreig sy'n darparu eitemau ar gyfer yr arwerthiant mud a gynhelir ar y nos i godi arian ar gyfer yr ardd.

Mae Ymddiriedolaeth yr Ardd Goffa Brydeinig yn chwarae rhan yn Wales Week bob blwyddyn. Yn 2006, ymunodd gyda Phrifysgol Bangor a Sony i drefnu cyngerdd yn atriwm Sony yn Efrog Newydd. Mae'r ardd eisoes wedi cadarnhau ei bod yn dymuno chwarae rhan eto yn 2007.

Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn cyfrannu nifer fawr o fylbiau cenhinen Dinbych-y-pysgod, i'r ardd goffa Brydeinig, ac ein gobaith yw y byddant yn blodeuo erbyn dydd Gŵyl Dewi i nodi'r presenoldeb Cymreig yn yr ardd.

Yr ydym hefyd yn gweithio i helpu'r ardd i ennill nodded ar gyfer elfennau Cymreig yr ardd, yn arbennig y cerrig palmant. Dim ond dwy sydd wedi eu noddi hyd yn hyn ac mae staff canolfan ryngwladol Cymru yn gobeithio cynnal cyfres o nosweithiau cwis i godi arian fel bod mwy yn cael eu noddi.

Mae gan ganolfan rhyngwladol Cymru a St David's Society, Efrog Newydd ill dau berthynas campus gyda'r ardd goffa Brydeinig, ac yr ydym yn gwneud y cyfan a allwn i sicrhau fod Cymru'n cael ei gynrychioli'n llwyr ac yn llawn. Fodd bynnag, nid oes rhoddion uniongyrchol wedi cael eu rhoi i'r ardd eto gan Lywodraeth Cynulliad Cymru nac unrhyw gorff arall yng Nghymru.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0900(CWS) a gyhoeddwyd gan Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ar 20 Medi 2006**

**At Janice Gregory:**

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 20 Medi 2006, cytunais i ddarparu manylion pellach ichi am gynllun nofio rhad ac am ddim i bobl 60+ Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Yr oeddech yn credu y cafwyd gwared arno yn ystod gwyliau'r haf.

Gallaf gadarnhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymestyn ei ddarpariaeth o nofio rhad ac am ddim i bobl 60+ drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys cyfnod gwyliau ysgol, ym Medi 2005. Mae swyddogion wedi cadarnhau fod y cynllun yn bwrw rhagddi yn ystod gwyliau ysgol yr haf 2006, a'i fod wedi cael ei groesawi'n gynnes.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ychwanegol am gynllun nofio rhad ac am ddim Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, efallai byddwch yn dymuno mynnu gair gyda'r Bon. Mark Shepherd,  Prif Swyddog Hamdden, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 01656 642600.

Yn y cyfamser, er gwybodaeth bellach, amgaeaf gopi o'r cylchlythyr am nofio am ddim ar gyfer gwanwyn 2006, sy'n cynnwys erthygl am y gampfa ddŵr tra phoblogaidd o'r gwneuthuriad diweddaraf a'i cefnogwyd gan grant cyfalaf nofio am ddim £30,000 wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r llythyr newyddion hefyd yn dadlennu enghreifftiau fydd, o bosib, o ddiddordeb i chi o fentrau eraill sydd yn dangos arfer da a ddarperir drwy'r cynllun nofio am ddim.

Gobeithiaf fod hyn o gymorth.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0941(CWS) a gyhoeddwyd gan Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ar 20 Medi 2006**

**At Jenny Randerson:**

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 20 Medi 2006, cytunais i ddarparu manylion ichi am ddosraniad grantiau nofio rhad i bobl 60+ yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol.

Ar gyfer bob blwyddyn ariannol o 2005-06 i 2008-09, ymroddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i fuddsoddi £1 miliwn y flwyddyn mewn nofio am ddim i bobl 60+ er mwyn annog pobl hŷn i nofio fel gweithgarwch corfforol cyson. Isod ceir dadansoddiad o'r dosraniad o'r grant yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol.

**Nofio am ddim i bobl 60+--dosraniad ariannol yn ôl awdurdod lleol**

| **Awdurdod lleol** | **Dosraniad** |
|---|---|
| Ynys Môn | £25,500 |
| Blaenau Gwent | £27,000 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £40,800 |
| Caerffili | £52,800 |

| | |
|---|---|
| Caerdydd | £97,700 |
| Sir Gaerfyrddin | £66,800 |
| Ceredigion | £22,200 |
| Conwy | £48,100 |
| Dinbych | £36,900 |
| Fflint | £40,000 |
| Gwynedd | £50,600 |
| Merthyr Tudful | £21,900 |
| Sir Fynwy | £21,600 |
| Nedd Port Talbot | £53,900 |
| Sir Benfro | £39,000 |
| Powys | £40,400 |
| Rhondda Cynon Taf | £88,400 |
| Abertawe | £80,200 |
| Torfaen | £27,900 |
| Bro Morgannwg | £33,400 |
| Wrecsam | £45,000 |
| CYFANSWM | £1,000,000 |

Mae'r cyfranogiad yn nofio am ddim i bobl 80+ yn fy annog yn ddirfawr. Darganfu arolwg diweddar fod dros bumed o nofwyr 60+ yn ddefnyddwyr newydd. Rhwng Ebrill a Gorffennaf 2005 cofnododd awdurdodau lleol, ar gyfartaledd, dros 40,000 nofiad am ddim y mis. Bydd dylanwad llawn y cynllun peilot yn cael ei gyflwyno yn yr adroddiad gwerthuso diwethaf yng Ngorffennaf 2007. Yn y cyfamser, mae'r adroddiadau gwerthuso sydd ar gael wrth Gyngor Chwaraeon Cymru a'r cylchlythyr nofio am ddim, sydd i'w weld ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn darparu gwybodaeth am ddylanwad nofio am ddim yng Nghymru a sut mae'r cynllun peilot yn cael ei ddatblygu er mwyn cyfrannu at dargedau Dringo'n Uwch.

Fel y pwysleisiwyd yn ein fframwaith ar gyfer gweithredu, 'Dringo'n Uwch—Y Camau Nesaf', mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwella'r fenter nofio am ddim drwy gyflwyno cronfa gwella nofio am ddim, wedi ei ariannu â £1.5 miliwn y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf. Bydd y gronfa yn cefnogi gweithredu pellach i gynyddu lefelau o weithgarwch corfforol, megis y ddarpariaeth o wersi nofio ac ailwampio cyfleusterau er mwyn cyrraedd anghenion lleol a lleihau rhwystrau i wella mynediad i gymryd rhan.

Gobeithiaf fod hyn o gymorth.